# Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Llywydd 2023-24

## Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Llywydd

**1.** Mae paragraff 20B o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgor y Llywydd ("y Pwyllgor") gyflwyno adroddiad blynyddol ar arfer ei swyddogaethau.

### Craffu ar Amcangyfrif y Comisiwn Etholiadol 2023-24

**2.** Cafodd y Pwyllgor ddau gyfarfod ffurfiol (7 Tachwedd 2023 a 22 Ionawr 2024) yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24.

**3.** Cyfarfu'r Pwyllgor ar 7 Tachwedd 2023 i ystyried amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol (y Comisiwn) ar gyfer 2024/25 a'r amcangyfrif atodol ar gyfer 2023/24.

**4.** Cyfarfu'r Pwyllgor ar 22 Ionawr 2024 i ystyried yr amcangyfrif atodol ar gyfer 2023/24 ymhellach.

**5.** Cafodd trafodaethau'r Pwyllgor ynghylch amcangyfrifon ariannol y Comisiwn ar gyfer 2024-25 eu cynnwys yn ei adroddiad 'Craffu ar Amcangyfrif Ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2023/24' a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022.

**6.** Cyflwynodd y Comisiwn gais am amcangyfrif ariannol atodol ym mis Medi 2023, a oedd i'w gynnwys yng nghyllideb atodol Llywodraeth Cymru a osodwyd ym mis Chwefror 2024. Cais am £53,900 ychwanegol oedd hwn (sy'n cyfateb i gynnydd o 3.8% ers yr amcangyfrif gwreiddiol ar gyfer 2023-24) i ateb y pwysau cysylltiedig â dyfarniadau cyflog ac ymosodiadau seiber. Cynhyrchwyd adroddiad ar wahân ar y cais cyllideb atodol ym mis Mawrth 2024[1]. Cytunwyd ar y cais hwn fel rhan o'r Ail Gyllideb Atodol ar 13 Mawrth 2024.

## Newidiadau sy'n effeithio ar Bwyllgor y Llywydd

**7.** Nid oedd unrhyw newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

**8.** Bu dau newid yn rôl y Prif Weithredwr. Gadawodd Sean McNally y rôl ar 30 Tachwedd 2023. Penodwyd Rob Vincent yn Brif Weithredwr dros dro cyn i Vijay Rangarajan ymgymryd â'r rôl yn barhaol o 4 Mawrth 2024. Penodwyd David Moran yn Swyddog Cyfrifyddu yn ystod y cyfnod y bu Rob Vincent yn Brif Weithredwr dros dro.

[1] Amcangyfrif Atodol y Comisiwn Etholiadol 2023-24